

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan Swyddfa UE Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 15_Medi/Hydref



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyflwyniad

Mae'n bleser cyflwyno pymthegfed rhifyn Materion Ewropeaidd, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd am waith y Cynulliad Cenedlaethol ar faterion Ewropeaidd.

Wrth i ni ddychwelyd o'r toriad dros yr haf, mae cynnwrf ynghylch materion Ewropeaidd. Mae Senedd Ewrop wedi cychwyn tymor arall, gyda grwpiau gwleidyddol newydd wedi eu ffurfio, ac mae aelodau'r pwyllgorau wedi'u henwi. Yn dilyn penderfyniad Senedd Ewrop i ailnewbu yr Arlywydd Barroso fel Arlywydd y Comisiwn ar 16 Medi, bydd sylw pawb yn troi at lwerddon wrth i ni ddarganfod ar 2 Hydref a oedd y "gwarantau" a roddwyd ers y bleidlais "na" yn y refferendwm cyntaf yn ddigon i ddarbwyllio pobl lwerddon i bleidleisio dros Gytuniad Lisbon yr ail waith. Dylai hyn gael ei ddilyn gan enwebu'r Comisiynwyr Ewropeaidd newydd ym mis Tachwedd.

Ym mis Hydref, disgwylir i'r Arlywydd Barroso lansio ymgynghoriad ar ddyfodol Strategaeth Lisbon. Rwy'n falch bod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn edrych ar y mater hwn, a chyflwynodd Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog sylwadau Llywodraeth Cymru ar y ddogfen allweddol hon i Ewrop a Chymru. Rydym hefyd yn falch o fod wedi derbyn diweddariad gan Christine Chapman ar ei phapur ar ddyfodol Strategaeth Lisbon. Mae'r papur wedi mynd trwy gam cyntaf y broses wrth iddo gael ei fabwysiadu gan Gomisiwn Economaidd a Materion Cymdeithasol Pwyllgor y Rhanbarthau yn Wrocław, Gwlad Pwyl, ar 14 Medi.

Rydym hefyd yn parhau â'n hymchwiliad i ddyfodol y Polisi Cydlyniant, sy'n berthnasol iawn i'n trafodaethau ar ddyfodol Strategaeth Lisbon. Mae hyn yn cynnwys clywed tystiolaeth gan randdeiliaid o Gymru, fel y sector addysg uwch a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, rhwydweithiau Ewropeaidd gan gynnwys y Rhwydwaith Gwrth-dlodi Ewropeaidd, a'r Comisiwn Ewropeaidd ei hun, drwy'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal. Rydym yn bwriadu llunio adroddiad dros dro ar yr ymchwiliad hwn cyn diwedd y flwyddyn.

Ar 13 Hydref, bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried papur cwmpasu ar gyfer ymchwiliad byr a fydd yn edrych ar gyfraniad Cymru at y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer mynd i'r afael â Thlodi ac Eithrio Cymdeithasol, sydd yn berthnasol yn yr hinsawdd economaidd bresennol, o ystyried y cynnydd mewn diweithdra a'r pwysau a ddaw yn sgil hynny.

Rwyf hefyd yn falch ein bod wedi derbyn y newyddion diweddaraf am weithgareddau cyrff eraill yng Nghymru, fel y gellir ei weld yn ein sesiwn ar "Hybu dinasyddiaeth fyd-eang weithredol" gyda chyfranogiad CILT CYMRU, ECTARC a Llyfrgell Wrecsam.

Mae pwyllgorau eraill y Cynulliad yn cynnal amryw o ymchwiliadau sy'n edrych ar faterion o fewn cyd-destun Ewropeaidd.

Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu'n bwriadu cynnal ymchwiliad ar yr economi werdd. Yn ôl y sôn dyma fydd un o flaenoriaethau'r strategaeth a fydd yn olynu'r Strategaeth Lisbon gyffredol.

Bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn cynnal ymchwiliad i Ffermio'r Ucheldir yng Nghymru; bydd statws Ardaloedd Llai Ffafirol yn elfen bwysig o'r ymchwiliad. Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn ymchwilio i'r diwydiant Ilaeth yng Nghymru, trafodaeth sy'n dilyn gwrthdystiadau ym Mrwsel, a streiciau mewn rhannau o Ewrop, dros bris Ilaeth teg.

Rydym hefyd yn disgwyl i nifer o adroddiadau gael eu cyhoeddi, yn dilyn ymchwiliadau a gynhaliwyd ynghynt eleni, ar bynciau fel llifogydd yng Nghymru, lleihau allyriadau carbon a chyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru.

I gloi, rwy'n falch y bydd y Cyfarfod Llawn yn trafod adroddiad ar Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol, a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ym mis Gorffennaf, yn dilyn ymchwiliad a gynhaliwyd ynghynt eleni. Byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn yn 2010 wrth i'r trafodaethau ddatblygu ym Mrwsel.

Sandy Mewies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol



Busnes yn ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Cyfarfod Llawn

- **Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol:** bydd adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac ymateb Llywodraeth Cymru'n cael eu trafod yn ystod Cyfarfod Llawn y Cynulliad ar 7 Hydref.
- **Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig:** cynhelir dadl ar adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 30 Medi.

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Ymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal, y sector addysg uwch yng Nghymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Rhwydwaith Gwrthdlodi Ewropeaidd ym mis Hydref fel rhan o'r ymchwiliad hwn.
- **Dyfodol Strategaeth Lisbon:** yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 29 Medi, bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cyflwyno sylwadau Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y strategaeth. Yn ystod yr un cyfarfod, bydd Christine Chapman, cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yn rhoi'r diweddaraf am ei phapur drafft ar ddyfodol y Strategaeth.
- **Blwyddyn Ewropeaidd ar gyfer mynd i'r afael â Thlodi ac Eithrio Cymdeithasol 2010:** bydd y Pwyllgor yn ystyried papur cwmpasu er mwyn cynnal ymchwiliad byr i'r pwnc hwn ar 13 Hydref.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Creu swyddi yn yr economi werdd:** mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad yn y maes hwn, fel ymchwiliad dilynol i ymateb Llywodraeth Cymru i'r dirwasgiad economaidd rhyngwladol, ac i gyfrannu at y ddadl ar roi Strategaeth Swyddi Gwyrdd Cymru ar waith.
- **Cyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru:** yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad dros dro ym mis Ionawr eleni, bydd y Pwyllgor yn lansio ei adroddiad llawn a'i argymhellion ar 7 Hydref ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Llifogydd a lleihau allyriadau carbon:** bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiadau ar ei ymchwiliadau i lifogydd yng Nghymru ac i leihau allyriadau carbon yng Nghymru ym mis Tachwedd.
- **Mynediad i ddyfrffyrdd mewnol:** mae'r Pwyllgor yng nghanol ei ymchwiliad i fynediad i ddyfrffyrdd mewnol.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Dyfodol Ucheldiroedd Cymru:** mae'r Is-bwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r pwnc hwn, sy'n cynnwys Ardaloedd Llai Ffatriol yng Nghymru, yn ystod tymor yr hydref.
- **Y Diwydiant Llaeth yng Nghymru:** bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn ar y diwydiant llaeth yng Nghymru ar 1 Hydref, yng nghyd-destun yr argyfwng presennol sy'n effeithio ar gynhyrchwyr llaeth ledled Ewrop.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

- **Pwyllgor y Rhanbarthau:** Cyflwynodd Christine Chapman ei phapur drafft ar Ddyfodol Strategaeth Lisbon yn ystod cyfarfod o Gomisiwn Materion Economaidd a Chymdeithasol y Pwyllgor yn Wrocław, Pwyl ar 14 Medi. Mabwysiadwyd yr adroddiad, gyda chwech o welliannau, a chaiff ei drafod gan gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 2-3 Rhagfyr. Christine fydd un o'r prif siaradwyr mewn seminar ar Ddyfodol Strategaeth Lisbon ym Mrwsel ar 6 Hydref fel rhan o Wythnos Agored y Rhanbarthau, a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol.
- **Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon:** cynhelir Cynhadledd lawn rhif 39 yn Abertawe rhwng 18 a 20 Hydref, a disgwylir i Alun Cairns, Michael German, Dai Lloyd a Joyce Watson fynychu ar ran y Cynulliad.
- **CALRE:** bydd Rosemary Butler AC, Dirprwy Lywydd y Cynulliad, yn mynychu cyfarfod llawn o CALRE, a gynhelir yn Innsbruck yn Awstria rhwng 18 a 20 Hydref.

Ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd

- Ar 23 Gorffennaf, cynhaliwyd digwyddiad **Cymru dros Affrica** ym mhresenoldeb y Gwir Anrhydeddus David Miliband AS, y Gweinidog Tramor, a Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Cymru.
- Ar 10 Medi, ymwelodd cynrychiolwyr o Adran Gyllid a Thrysorlys Bosnia â'r Cynulliad, fel rhan o **Daith Astudiaeth Trysorlys y DU**.
- Ar 30 Medi, bydd y **Gwir Anrhydeddus John Bercow AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin**, yn ymweld â'r Cynulliad, ac yn cyfarfod â Chomisiynwyr y Cynulliad a grŵp trawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad, fel rhan o raglen gynhwysfawr o gyfarfodydd.

Lincs

- [Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
- [Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)
- [Tudalennau'r Pwyllgorau](#)
- [Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

Am ragor o wybodaeth—

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y
Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92

Neu

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
archebu@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.